

Fel ysgol, rydym yn adolygu'n gyson ein prosesau, polisiâu a gweithdrefnau er mwyn adnabod sut y gallwn wella'n barhaus i sicrhau bod pob plentyn o fewn Ysgol y Graig yn cael yr addysg orau. Trwy'r broses o hunan-wella ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol, rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant.



Meysydd Adolygu - Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau parhaus o fewn y meysydd canlynol:

- Arweinyddiaeth;
- Cwricwlwm;
- Addysgu a Dysgu;
- Lles, Tegwch a Chynhwysiant;

Y Graig sy'n Sylfaen

Ein nod yw creu amgylchfyd ac awyrgylch hapus a diogel lle y gall pob dysgwr dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, sy'n ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas

Ein cryfderau

Arweinyddiaeth

- Gweledigaeth glir arweinwyr sy'n dylanwadu ar waith yr ysgol
- Arweinyddiaeth sy'n defnyddio prosesau monitro ac adolygu parhaus er mwyn dylanwadu ar addysgu a dysgu ac yna gweithredu er mwyn sicrhau gwelliant.
- Arweinwyr sy'n datblygu'r gweithlu ac yn meithrin diwylliant o gydweithio o fewn yr ysgol a gydag ysgolion eraill
- Arweinwyr yn mynnu disgygliadau uchel ar draws yr ysgol.

Cwricwlwm

- O ganlyniad i hyfforddiant a chydweithio gydag ysgolion eraill mae gan arweinwyr a staff yr ysgol ddeallwriaeth dda o disgygliadau, dibenion ac egwyddorion y cwricwlwm i Gymru
- Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig profiadau sy'n cefnogi cyffroes ac yn meithrin gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y dysgwyr
- Trefnir amrywiaeth dda o ymweliadau, profiadau a chyfleoedd allgyrsiol i atgyfnerthu'r dysgu ac i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach.
- Mae Llais y dysgwyr a'n rhieni yn ganolog wrth gynllunio'n themau.

Dysgu ac Addysgu

- Mae'r ysgol yn sicrhau bod y dysgu'n datblygu'r dysgwyr drwy amrywiaeth o brosesau addas i wireddu pedwar diben y cwricwlwm
- Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais ar ddysgu proffesiynol, cydweithio ac arloesi er mwyn cefnogi lles a chynnydd y dysgwyr
- Rhoddir focws cyson ar ddatblygu'r medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm
- Datblygir egwyddorion ar gyfer asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol. Ysgogir dysgwyr i fyfrio ar ei gwaith eu hunain a'u cyfoedion, a thrwy hynny sicrhau eu bod yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol, hyderus.

Lles, Tegwch a Chynhwysiant

- Mae cwricwlwm yr ysgol yn cefnogi lles, tegwch a chynhwysiant i'r dysgwyr, gyda phob dosbarth yn cynnal gweithgareddau megis dydd Llyn Llesiant
- Mae'r ysgol hefyd yn hybu iechyd corfforol ac iechyd meddwl da trwy ystod o weithgareddau megis clybiau allgyrsiol, sesiynau ELSA a Talkabout, sesiynau gyda'r therapydd chwarae ac ati.
- Mae'r ysgol yn gweithredu'n barhaus i gadw'r dysgwyr yn ddiogel ac yn cydymffurfio'n llwyr gyda â chanllawiau diogelu Llywodraeth Cymru. Sichreir fod yr holl staff yn derbyn y lefel priodol o hyfforddiant diogelu. Cynhelir awdit tymhorol o ddiogelwch o fewn yr ysgol gydag asesiadau risg yn cael eu cwblhau a'u diweddarau
- Mae'r ysgol wedi ymateb yn gadarnhaol i ddiwygidau o fewn y maes Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) gyda gweithdrefnau effeithiol wedi eu gwreiddio ym mywyd pob dydd yr ysgol.
- Mae'r cydlynwyr ADY yn wybodus iawn o'r ddeddf, ac yn gweithredu'n effeithiol iawn wrth arwain y staff a'r dysgwyr.
- Mae Ysgol y Graig yn ymhyfrydu yn y ffaith ei bod yn ysgol gynhwysol. Mae gan yr ysgol gynllun cydraddoldeb ac hygyrchedd sy'n sicrhau ei bod yn gallu ateb anghenion yr holl ddysgwyr a rhanddeiliaid yr ysgol.



Canfyddiadau gwerthuso blaenoriaethau 2023 - 2024

Mesur Cynnydd - Mireinio
gweithdrefnau adolygu
cynnydd sy'n seiliedig ar
egwyddorion cynnydd,
disgrifiadau dysgu a'r
pedwar diben

Effaith

- System tracio wedi ei greu ac yn cael ei ddefnyddio gan yr holl athrawon

Mathemateg - Datblygu
hyfedredd mathemateg ar
draws yr Ysgol

Effaith

- Adroddiadau monitor yn dangos fod gan llawer o ddisgyblion ar draws yr Ysgol sgiliau rhifedd da

Addysgeg Sicrhau a chysoni
strategaethau

Metawybyddiaeth ac adborth
ar draws y continwrm 3-16

Effaith

- Polisi adborth wedi ei greu ar gyfer y Dalgylch. Disgyblion y Cyngor Ysgol Dalgylch wedi cyfarnnu tuag at ei greu.

Dysgu digidol Cydweithio
gyda'r grwp addysgeg ar gyfer
datblygu adborth digidol a
pharhau i ddatblygu y model
SAMR o gynllunio

Effaith

- Adroddiadau monitor yn dangos fod y model SAMR yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd wrth gynllunio tasgau cyfoethog.

ADY Cysoni gwahaniaethu ar
draws yr ysgol a pharatoi ar gyfer
y dull newydd o gyllido ADY

Effaith

- Adroddiadau monitor yn dangos fod enrheiffiau o wahaniaethu effeithiol yn bodoli o fewn yr Ysgol.
- Mae angen datblygu agweddau o wahaniaethu ymhellach ar draws yr Ysgol.

Blaenoriaethau 2024 – 2025

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o weithdrefnau er mwyn gwerthuso ein gwaith, e.e. craffu ar lyfrau dysgwyr, arsylwi gwersi, dadansoddi canfyddiadau holiaduron, dadansoddi asesiadau mewnol ac ati. Yn dilyn edrych ar ganfyddiadau'r monitor hyn rydym wedi adnabod yr isod fel ein blaenoriaethau ar gyfer sicrhau gwelliant yn ystod y flwyddyn academiaidd hon.

1. DYSGU AC ADDYSGU – Sefydlu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ym ml 3 – 6.

Sicrhau fod pob athro BI3 – 6 yn cynllunio profiadau dysgu o fewn yr ardaloedd sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso eu sgiliau, datrys problemau a meithrin eu hannibyniaeth

2. CYNLLUNIO

Mireinio cynlluniau tymor hir a thymor canol er mwyn sicrhau datblygiad yn nysgu yr holl ddisgyblion wrth ateb gofynion Cwriwlcwm i Gymru.

3. MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Sicrhau fod bron pob disgybl yn chwilfrydig fel eu bod yn gallu ymchwilio i wybodaeth wyddonol, a'i chymhwyso, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio.

4. ADDYSGEG - GWAHANIAETHU (Blaenoriaeth Dalgylch)

Ymateb i anghenion ein holl ddisgyblion ym maes laith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Sicrhau cysondeb er mwyn rhoi mynediad at yr addysg orau i bob disgybl ddatblygu a gwneud cynnydd ar hyd y continwrm addysgu